OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 55 (Cy.19)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Ffioedd Chwiliadau Eiddo) (Datgymhwyso) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 19 Ionawr 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 21 Ionawr 2009
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 94 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Ffioedd Chwiliadau Eiddo) (Datgymhwyso) (Cymru) 2009.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod y daw Rheoliadau sy'n dirymu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Chwiliadau Tir) 1994(**3**) i rym.

(3) Dim ond i awdurdodau lleol yng Nghymru y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "mynediad i gofnodion eiddo" ("*access to property records*") yw mynediad i gofnodion eiddo a roddir gan awdurdod lleol mewn unrhyw un neu rai o'r ffyrdd a ganlyn—

(a) caniatáu i berson archwilio neu chwilio cofnodion eiddo mewn man a ddynodwyd gan yr awdurdod ar gyfer gwneud hynny;

(b) caniatáu gwneud cofnodion eiddo, neu ddarparu copïau ohonynt; neu

(c) trosglwyddo cofnodion eiddo neu gopïau o'r cyfryw gofnodion yn electronig,

(**1**) 2003 p. 26.
(**2**) Mae'r pwer o dan adran 94 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru; *gweler* y diffiniad o "appropriate person" yn adran 124 o'r Ddeddf, a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 1994/1885.